Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

Adolygiad Siarter y BBC

EICH BBC

EICH BARN

Newyddion am benderfyniadau ynglŷn â dyfodol y BBC

Ar hyn o bryd, mae gweithgareddau'r BBC yn cael eu rheoli gan Siarter Brenhinol – dogfen sy'n siapio'r BBC, gan nodi ei bwrpas, yr hyn mae'n ei wneud a sut mae'n ei wneud. Ers 1927, mae adolygiad wedi cael ei gynnal tua bob 10 mlynedd i weld a yw'r BBC yn parhau i wasanaethau'r cyhoedd yn dda ac i ystyried ei ddyfodol.

Mae'r daflen hon yn amlygu'r cynlluniau ar gyfer y BBC dros y 10 mlynedd nesaf, sydd wedi'u nodi'n fanwl ym Mhapur Gwyn y Llywodraeth, *Gwasanaeth cyhoeddus i bawb: y BBC yn yr oes ddigidol*, a gyhoeddwyd ar 14 Mawrth 2006.

Ffordd newydd o redeg y BBC

Bydd Bwrdd Llywodraethwyr y BBC yn cael ei ddisodli gan Ymddiriedolaeth BBC newydd – fydd yn gyfrifol am oruchwylio'r BBC a chynrychioli eich diddordebau'n gliriach – ynghyd â Bwrdd Gweithredol, fydd yn gyfrifol am redeg y BBC o ddydd i ddydd ac a fydd yn atebol i'r Ymddiriedolaeth.

Bydd y system newydd yn fwy tryloyw, yn annibynnol ar y Llywodraeth a bydd diddordebau'r rhai sy'n talu ffi'r drwydded yn gwbl ganolog iddi. Bydd hyn yn cynnwys, ymysg pethau eraill, mwy o ymchwil i gael barn gwylwyr ar newidiadau i'r gwasanaethau a chreu trefn gwyno gliriach.

Dibenion cyhoeddus y BBC

Bydd darparu'r rhaglenni gorau a chyflwyno'r gwasanaethau gorau i dalwyr ffi'r drwydded yn parhau i fod yn ganolog i bopeth a wna'r BBC. Ond er mwyn dangos yn gliriach beth mae talwyr ffi'r drwydded yn ei gael, bydd gan y BBC bum diben craidd:

- Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil
- Hyrwyddo addysg a dysgu
- Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol
- Adlewyrchu cenhedloedd, rhanbarthau a chymunedau'r DU
- Dod â'r byd i'r DU a'r DU i'r byd

O fewn y dibenion newydd, bydd adloniant yn parhau i fod yn rhan hanfodol o genhadaeth y BBC.

Hefyd, bydd un diben 'arbennig' i'r BBC: 'Datblygu Prydain Ddigidol'. Bydd y diben hwn yn cwmpasu rôl y BBC wrth droi'r DU at deledu digidol yn unig. Bydd y newid hwn i ddigidol yn digwydd rhwng 2008 a 2012. Bydd hefyd yn rhoi cyfrifoldeb arbennig arno i weithredu fel 'arweinydd dibynadwy', gan ddod â manteision technolegau newydd i gynulleidfaoedd newydd a sicrhau na fydd unrhyw un yn cael ei adael ar ôl.

Yn ogystal â BBC cryf, rydym am weld sector cynhyrchu teledu a radio masnachol bywiog a deinamig. Byddwn yn sefydlu trefniadau gwirio a chydbwyso newydd i sicrhau y bydd presenoldeb y BBC hefyd yn galluogi sefydliadau eraill i ffynnu.

Bydd gan holl wasanaethau'r BBC, fel BBC ONE neu Radio 2, Drwydded Wasanaeth arbennig sy'n amlinellu'r hyn y mae'n fod i'w wneud. Byddwn yn ymgynghori â'r rhai sy'n talu ffi'r drwydded ynglŷn â chynnwys y trwyddedau.

Annibyniaeth ac ariannu

Dau fater y mae'r cyhoedd yn ymddiddori ynddynt yn arbennig yw annibyniaeth ac ariannu. Bydd y BBC yn parhau i gael ei lywodraethu gan Siarter Brenhinol fydd yn para 10 mlynedd, gan sicrhau y bydd yn parhau i fod yn gryf ac yn annibynnol ar y Llywodraeth.

Ffi'r drwydded fydd prif ffynhonnell ariannu'r BBC hyd ddiwedd y Siarter nesaf. Nid yw lefel ffi'r drwydded wedi'i osod o Ebrill 2007 ymlaen eto, ond bydd hyn yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach eleni.

Sut i gysylltu â ni

Am fwy o wybodaeth ar y Papur Gwyn a'r Siarter a Chytundeb drafft, ewch i'n gwefan: www.bbccharterreview.org.uk neu cysylltwch â: BBC Charter Review Team, Department for Culture, Media and Sport, 2-4 Cockspur Street, London SW1Y 5DH, Ffôn 0207 211 6200.

Os ydych yn dymuno rhoi sylwadau ar unrhyw un o'r cynlluniau hyn, ysgrifennwch atom yn y cyfeiriad uchod, neu anfonwch neges e-bost i: bbccharterreview@culture.gsi.gov.uk erbyn dydd Gwener 28 Ebrill 2006.

Department for Culture, Media and Sport
2-4 Cockspur Street
London SW1Y 5DH
PP 876 Mawrth 2006